Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel
Ysgrifennydd Cartref
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

26 Tachwedd 2019

**Parth: Adroddiad Sbotolau PEEL – Taflu goleuni ar gamddefnyddio safle ar gyfer diben rhywiol**

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Ysgrifennaf mewn perthynas â'r adroddiad y sonnir amdano uchod, sy'n cael ei groesawu gan y Prif Gwnstabl Mark Collins a minnau.

Medraf gynghori bod y pum argymhelliad o fewn yr adroddiad yn destun cynllun gweithredu ac yn destun craffu yn y cyfarfodydd llywodraethu perthnasol, lle mae cynnydd yn cael ei drafod a'i fonitro. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei rannu gydag AHGTAEM. Yn ogystal, isod, rwyf wedi amlinellu ein hystyriaethau/ymateb i bob un o'r argymhellion o fewn yr adroddiad.

**Argymhelliad 1**

Dylai pob heddlu sydd ddim yn gwneud hynny eto gydymffurfio â holl elfennau'r canllawiau cenedlaethol ar fetio yn syth. Erbyn Gorffennaf 2020, dylai pob heddlu sydd heb wneud hynny eto fetio'r holl bersonél i'r safon briodol. Hefyd, dylai heddluoedd fod â dealltwriaeth glir o'r lefel fetio sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd, a'r lefel fetio sy'n cael ei dal gan bob swyddog ac aelod staff sydd ganddynt. Dylai heddluoedd sicrhau fod yr holl bersonél wedi'u fetio i lefel sy'n ddigon uchel ar gyfer eu swyddi.

Yn ddiweddar, creodd Heddlu Dyfed-Powys swydd Goruchwylydd Fetio newydd er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n rhyddhau ei ddyletswyddau o gwmpas fetio. Mae'r Heddlu'n deall y fetio sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd unigol o fewn y sefydliad, a rhaid cwblhau proses fetio cyn i rywun gychwyn swydd.

**Argymhelliad 2**

Erbyn Ebrill 2020, dylai arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer fetio a'r Coleg Plismona lunio rhestr o wybodaeth safonol y dylid ei rhannu rhwng heddluoedd pan mae rhywun yn trosglwyddo o un heddlu i'r llall. Byddwn ni'n disgwyl i hyn gynnwys gwybodaeth am berfformiad, salwch, cwynion, buddiannau busnes, cysylltiadau hysbysadwy ac unrhyw gudd-wybodaeth am lygredd arall o leiaf. Yna, dylai pob heddlu fabwysiadu hyn cyn gynted ag y bo modd.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cofnodi cudd-wybodaeth am lygredd gan ddefnyddio'r meini prawf cenedlaethol y cytunwyd arnynt, ac yn cynhyrchu asesiad bygythiad gwrthlygredd strategol blynyddol.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Argymhelliad 3**

Erbyn Medi 2020, dylai arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ar gyfer gwrth-lygredd a'r Swyddfa Gartref gydweithio â chyflenwyr meddalwedd er mwyn darparu datrysiad i alluogi pob heddlu i weithredu monitro TGCh rhagweithiol.

Erbyn Medi 2020, dylai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu hefyd weithio gyda heddluoedd er mwyn sefydlu ymagwedd safonol tuag at ddefnyddio'r wybodaeth y mae meddalwedd monitro TGCh yn darparu.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi dechrau monitro systemau TG yn rhagweithiol yn awr er mwyn nodi peryglon mewn perthynas â chamddefnyddio safle ar gyfer diben rhywiol. Gwnaed hyn yn bosibl drwy gyflwyno meddalwedd sy'n medru monitro dyfeisiau symudol. Yn y gorffennol, mae gweithgarwch o'r fath ond wedi digwydd mewn ymateb i gudd-wybodaeth a dderbyniwyd.

**Argymhelliad 4**

Erbyn Ebrill 2020, dylai pob heddlu sydd heb wneud yn barod: • cofnodi llygredd gan ddefnyddio'r categorïau gwrthlygredd cenedlethol; • cynhyrchu asesiad bygythiad strategol gwrthlygredd blynyddol, yn unol ag arfer proffesiynol awdurdodedig; a • sefydlu cysylltiadau rheolaidd rhwng eu hunedau gwrthlygredd a'r asiantaethau hynny sy'n cefnogi pobl sy'n agored i niwed.

Lle mae heddluoedd heb weithredu system monitro TGCh effeithiol eto sy'n eu caniatáu i fonitro dyfeisiau pen desg a dyfeisiau llaw, dylent wneud hynny cyn gynted ag y bo modd.

Erbyn Medi 2020, dylai pob heddlu fod wedi cwblhau adolygiad o'u defnydd o apiau sydd wedi'u hamgryptio ar systemau TGCh yr heddlu er mwyn deall y perygl maen nhw'n cyflwyno a chymryd unrhyw gamau sydd eu hangen er mwyn lliniaru'r perygl hwnnw.

Nid oedd gan Heddlu Dyfed-Powys strategaeth reoli nac asesiad bygythiad strategol gwrth-lygredd gyfredol adeg eich gwaith mewnwelediad rhag-archwilio ym mis Gorffennaf 2018. Fodd bynnag, erbyn eich gwaith maes archwiliad, roedd un wedi'i baratoi. Dylai asesiad o'r fath, wedi'i gynnal dros rai blynyddoedd, helpu'r Heddlu i adnabod y prif fygythiadau llygredd mewn modd systematig. Dylai hyn alluogi'r heddlu i adnabod tueddiadau a phatrymau mewn llygredd wrth iddynt ddatblygu. Dylai hyn gefnogi'r heddlu i ymyrryd er mwyn atal llygredd a/neu leihau bygythiadau llygredd yn fwy effeithiol.

Fel y nodir uchod, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi dechrau monitro systemau TG yn rhagweithiol erbyn hyn er mwyn nodi peryglon sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio safle ar gyfer diben rhywiol. Gwnaed hyn yn bosibl drwy gyflwyno meddalwedd sy'n medru monitro dyfeisiau symudol. Yn y gorffennol, mae gweithgarwch o'r fath ond wedi digwydd mewn ymateb i gudd-wybodaeth a dderbyniwyd.

**Argymhelliad 5**

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Erbyn Ebrill 2020, dylai pob heddlu sydd heb wneud yn barod sicrhau bod ganddynt ddigon o bobl â'r sgiliau cywir i chwilio'n rhagweithiol am gudd-wybodaeth am y rhai sy'n camddefnyddio eu safle ar gyfer diben rhywiol, a chwblhau eu hymchwiliadau'n llwyddiannus i'r rhai sy'n cael eu hadnabod.

Gyda dyfodiad y dechnoleg uchod, mae'r galw o fewn yr Uned Wrth-lygredd yn cynyddu. Hefyd, mae hyn yn ymwneud â chynyddu hyder staff o ran defnyddio'r system adrodd gyfrinachol, sef 'Bad Apple'. Cyn cynyddu'r lefelau staffio o fewn yr uned, mae angen gwell dealltwriaeth o'r galw sy'n cael ei greu gyda dyfodiad y dechnoleg hon.

Mae'r newidiadau a wnaed gan Heddlu Dyfed-Powys mewn ymateb i'r argymhellion ar gyfer yr hyn y dylai heddluoedd fod yn ei wneud er mwyn ymdrin â chamddefnyddio safle er mwyn atal, datrys ac ymdrin â'r math difrifol hwn o lygredd yn galondid i mi.

Yr eiddoch yn gywir

Dafydd Llywelyn

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Copi at: AEM Wendy Williams

Y Prif Gwnstabl Mark Collins

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

**web** www.dyfedpowys-pcc.org.uk **twitter** DPOPCC **facebook** dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner
**gwefan** www.dyfed-powys.pcc.police.uk **trydar** DPOPCC **facebook** dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner